"Rhowch chi rywbeth i'w fwyta iddynt"

(cydweithio / dyfalbarhad / caredigrwydd / helpu eraill)

Pa mor aml fyddwch chi'n hel esgusodion? "Mi rydw i'n rhy brysur." "Beth fedra i wneud?" "Does gen i ddim digon o wybodaeth." Dyma stori am ddyn ddefnyddiodd ei amser a'i dalent i helpu pobl eraill. Noson braf o haf oedd hi. Eisteddai Bob yn ei stafell foethus yn gwylio'r teledu. A dweud y gwir doedd o ddim yn gwylio rhyw lawer – roedd o'n pendwmpian mwy nag yr oedd o'n gwylio. Deffrôdd yn sydyn a gwelodd ar y sgrin blant bach oedd yn edrych yn denau a bregus. Roedden nhw'n crio a'r dagrau yn rhedeg i lawr eu gruddiau. Yn gymysg â'r dagrau roedd pryfed ar wynebau'r plant. Yn Ethiopia yn Affrica roedd y plant bach yma'n byw. Yn y wlad honno roedd y tywydd wedi bod mor sych am fisoedd fel nad oedd modd tyfu cnydau.

Dechreuodd Bob feddwl, "Mae'r plant bach yma angen help. Dwi'n siŵr bod yna filoedd o rai tebyg iddyn nhw eisiau bwyd a diod. Beth fedra i wneud i'w helpu?"

Cerddor oedd Bob wrth ei alwedigaeth. Gofynnodd i nifer o'i ffrindiau oedd yn gerddorion i'w helpu i gyfansoddi cân i atgoffa'r bobl o anghenion y plant newynog yn Affrica. Gan ei bod yn nesu at y Nadolig rhoddodd deitl addas iawn i'w gân, 'Do They Know It's Christmas?' Roedd y gwerthiant tu hwnt i bob disgwyliad. Roedd geiriau'r gân yn atgoffa'r bobl o'r plant bach oedd yn dioddef o newyn. Gwerthwyd miloedd o gopïau o'r gân. Efo'r arian penderfynodd Bob ei fod am ddefnyddio'r cyfan i helpu'r miloedd oedd yn dioddef. Ymhen rhai misoedd aeth drosodd i Ethiopia i weld sut roedd yr arian yn cael ei ddefnyddio. Pan gyrhaeddodd gwelodd fod yna broblem anferthol. Roedd miliynau ar filiynau o blant a phobl yn newynu. "Mae angen llawer mwy o arian i helpu'r trueiniaid hyn," meddai.

Dychwelodd i Brydain a chafodd syniad arall. "Beth am gynnal cyngerdd pop a gwahodd gwahanol artistiaid i gymryd rhan. Wedyn gallwn anfon yr elw i gyd i Affrica i helpu'r newynog." Ond cafodd Bob syniad gwell. "Beth am gynnal dau gyngerdd pop ac anfon elw'r ddau gyngerdd i Affrica?" Dechreuodd ar ei waith. Byddai un cyngerdd yn cael ei gynnal yn Stadiwm Wembley a'r llall

yn Stadiwm John F Kennedy yn Philadelphia, yr Unol Daleithiau. Byddai'r ddau stadiwm yn dal dros 160,000 o bobl. Doedd dim amdani ond brwydro ymlaen a phennu dyddiad – 13eg Gorffennaf 1985. Meddyliodd am enw ar gyfer y cyngherddau hyn. Bu'n pendroni am ddyddiau ac yn sydyn daeth yr enw iddo – 'Live Aid'.

Cynhaliwyd y ddau gyngerdd a bu'r ddau yn hynod o lwyddiannus. Roedd y ddau stadiwm yn llawn i'r ymylon a'r cyfan yn cael ei ddangos ar y teledu drwy'r byd i gyd. Yn ystod y cyngherddau cafwyd cyfnod o ddistawrwydd pan oedd lluniau o'r plant bach o Ethiopia yn cael eu dangos ar sgrin enfawr. Casglwyd dros ddeugain miliwn o bunnau o'r ddau gyngerdd a defnyddiwyd yr arian i gyd i helpu'r newynog. Doedd yr artistiaid ddim am gael eu talu gan eu bod yn gwneud y gwaith dros achos da. Felly roedd y cyfan yn elw pur.

Gyda'r arian defnyddiodd Bob longau i gario'r bwyd ac yna lorïau enfawr i'w gario'n syth i'r bobl oedd yn newynu. Diolch i Bob Geldof achubwyd llawer o fywydau.

Adnod: Meddai Iesu wrthynt, "Nid oes raid iddynt fynd ymaith. Rhowch chwi rywbeth i'w fwyta iddynt."
Mathew 14:16

Gweddi: O Dduw, os oes yna waith i gael ei wneud, defnyddia fi. Amen.

Trafod:

- Beth fyddwch chi yn ei wneud i helpu'r newynog? Rhestrwch bethau ymarferol fedrwch chi eu gwneud.
- 'Dysg ni i roi heb gyfri'r gost' (Sant Ignatius). Trafodwch y dywediad hwn.